



Ein cyf/Our ref SF/MD/0180/14

David Rees AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

HSCCommittee@wales.gov.uk

3 Chwefror 2014

Annwyl David

Gofal heb ei drefnu: parodrwydd ar gyfer gaeaf 2013-14

Diolch am eich llythyr dyddiedig 20 Rhagfyr 2013 mewn ymateb i'm hymddangosiad gerbron y Pwyllgor ar 9 Hydref 2013 a'r wybodaeth ysgrifenedig a ddarperais ar 31 Hydref 2013. Rwyf wedi mynd i'r afael â'r pwyntiau a godwyd gennych fel a ganlyn:-

Parodrwydd ar gyfer y gaeaf

Mae'r Pwyllgor wedi mynegi pryder ynglŷn â gallu GIG Cymru a gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru i ateb yr heriau y byddant yn eu hwynebu y gaeaf hwn. Mae Byrddau Iechyd Lleol (BILlau), Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaeth Ambiwlans Cymru (WAST) ac Awdurdodau Lleol (ALLau) yn adolygu eu cydgylluniau'n gyson er mwyn deall sut y maent wedi effeithio ar eu perfformiad dros gyfnod y gaeaf hyd yma, ac mae swyddogion Llywodraeth Cymru'n cyflawni gwaith craffu parhaus er mwyn darparu sicrwydd yn hyn o beth.

Mae natur newidiol pwysau'r gaeaf ar wasanaethau'r GIG yn cael ei fonitro'n ofalus gan Lywodraeth Cymru trwy alwadau wythnosol ar lefel Prif Weithredwr; galwadau cynadledda dyddiol ar bwysau brys ar lefel Swyddogion Gweithredol y mae cynrychiolwyr BILlau a WAST yn rhan ohonynt, a thrwy ddangosfwrdd Gofal heb ei Drefnu GIG Cymru sy'n darparu data a gwybodaeth fyw am gyfres o ddangosyddion, gan gynnwys nifer y gwelyau, oedi wrth drosglwyddo gofal a lefelau trosglwyddo i lefel uwch.

Mae'n galonogol nodi bod y data diweddaraf yn dangos bod GIG Cymru wedi gwneud gwelliannau sylweddol dros y misoedd diwethaf yn erbyn cyfres o ddangosyddion perfformiad. Mae hyn yn cynnwys gostyngiad o 49% yn nifer y cleifion sy'n aros dros awr i gael eu trosglwyddo o ambiwlans i ofal staff damweiniau ac achosion brys ym mis Rhagfyr o gymharu â mis Ebrill, a'r gyfran uchaf o gleifion i gael eu derbyn, eu trosglwyddo neu eu rhyddhau o fewn 4 awr mewn adrannau damweiniau ac achosion brys yng Nghymru ym mis Rhagfyr (89.4%) ers mis Rhagfyr 2007.

Mae'r gwelliannau hyn o ganlyniad i weithredu arferion arloesol gan sefydliadau'r GIG, megis y prosiect *Focus on Flow* ym Mwrdd Iechyd Cwm Taf. Mae'r prosiect hwn wedi cyflwyno dull sefydliad cyfan ar sail amlasiantaethol gan gydnabod y cysylltiadau a'r berthynas waith allweddol gyda WAST, Awdurdodau Lleol a rhanddeiliaid eraill. Yr arwyddion cynnar yw bod y prosiect hwn yn dechrau dangos canlyniadau gwell o ran perfformiad, yn ogystal â gwell adborth gan gleifion yn yr adran damweiniau ac achosion brys a gwelliannau o ran morâl staff ac absenoldeb salwch. Er fy mod yn cydnabod bod angen gwneud mwy o waith yn erbyn amryw o ddangosyddion, mae'r ffaith ein bod wedi gweld gwelliannau o'r fath yn tystio i bwysigrwydd gwneud cynlluniau amlasiantaethol cadarn ar gyfer y gaeaf.

Cynhelir adolygiad o gyfnod y gaeaf yng nghyfarfod nesaf y grŵp Cynllunio Tymhorol cenedlaethol ym mis Mawrth, lle bydd cynrychiolwyr amlasiantaethol yn rhannu arferion da ac unrhyw wersi a ddysgwyd fel rhan o'u proses cynllunio gwasanaethau. Y digwyddiad hwn hefyd fydd dechrau'r cyfnod cynllunio ar gyfer gaeaf 14/15, a'r gwaith o fireinio cynlluniau'r GIG a chynlluniau gofal cymdeithasol. Rwy'n disgwyl i BILlau a WAST gyhoeddi'r cydgynlluniau gaeaf hyn yn rheolaidd yn y dyfodol.

Yn y pen draw, rydym yn parhau'n ymroddedig i gryfhau gwasanaethau gofal sylfaenol, eilaidd a chymdeithasol integredig yng Nghymru a gwneud gwelliannau pellach i ddarpariaeth gwasanaethau gofal heb ei drefnu.

Cynlluniau gofal heb ei drefnu

Dechreuwyd cynllunio ar gyfer y gaeaf ym mis Mawrth fel rhan o fforwm Cynllunio Tymhorol chwarterol. Datblygwyd y cynlluniau gofal heb ei drefnu ym mis Mehefin 2013 er mwyn sicrhau ein bod yn fwy parod i ymateb i'r blaenoriaethau a'r pwysau cynyddol sy'n wynebu ein gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Roedd y cynlluniau ar gyfer y gaeaf a gyflwynwyd yn y digwyddiad cynllunio ar gyfer y gaeaf ym mis Medi yn adeiladu ar y cynlluniau gofal heb ei drefnu, gyda ffocws clir ar gyfnod y gaeaf.

Barn y Pwyllgor yw y dylai cynlluniau fel y rhain fod ar gael cyn y cyfnod dan sylw ac y dylent fod yn ddogfennau manwl a chynhwysfawr. Dyma'r tro cyntaf i gynlluniau o'r fath gael eu cyhoeddi ac mae'n bwysig cydnabod bod y rhain yn ddogfennau 'byw' y bydd angen eu datblygu ymhellach, gydol y gaeaf a thu hwnt, wrth i'r heriau a'r cyd-destun newid. O ran manylion y cynlluniau, wrth gyhoeddi eu cynlluniau mae'r BILlau a WAST wedi ystyried yr angen i sicrhau bod y cynlluniau cyhoeddus hynny yn hawdd i aelodau'r cyhoedd eu deall.

Cynllunio a Pherfformiad

Rydych chi wedi gofyn am fanylion pellach am y newidiadau i ddulliau monitro perfformiad gofal heb ei drefnu ac unrhyw feincnodi rydym yn bwriadu ei gyflwyno er mwyn cymharu perfformiad.

Cyfeiriodd adroddiad diweddar Swyddfa Archwilio Cymru ar ofal heb ei drefnu at y sylw cynyddol mae Llywodraeth Cymru wedi'i roi i fonitro perfformiad gofal heb ei drefnu, a gallaf gadarnhau bod y lefel hon o graffu wedi'i hatgyfnerthu. Mae cyfarfodydd *Ansawdd a Darpariaeth* misol yn parhau i gael eu cynnal rhwng swyddogion uwch Llywodraeth Cymru a chynrychiolwyr BILlau a WAST er mwyn craffu ar gynlluniau gofal heb ei drefnu. Mae swyddogion hefyd yn gweithio'n ofalus gyda chydweithwyr yn Uned Gyflawni'r GIG er mwyn dadansoddi perfformiad ar lefel leol a chenedlaethol bob pythefnos. Fel y nodwyd eisoes yn y llythyr hwn, mae swyddogion eisoes wedi datblygu dangosfwrdd gofal heb ei drefnu sy'n

cynnwys y data cyfredol bron ar amryw o ddangosyddion perfformiad. Mae adnodd Launchpad Live WAST ar y we hefyd yn cael ei fonitro gan swyddogion gydol y dydd er mwyn deall materion perfformiad ac, os yn briodol, gweithredu arnynt.

Wrth lansio ei Rhaglen Lywodraethu, dywedodd Llywodraeth Cymru ei bod wedi ymrwymo i fesur yr effaith (canlyniad) mae Llywodraeth Cymru'n ei chael ar fywydau pobl. Dros y blynyddoedd diwethaf, rydym wedi nodi ein bwriad i ddatblygu dull mwy ystyrlon o fesur yr hyn mae'r GIG yn ei ddarparu. Yn ystod yr haf, cynhaliwyd ymarfer ymgysylltu gyda rhanddeiliaid, gan gynnwys cleifion, clinigwyr a phartneriaid, i nodi'r hyn sy'n bwysig trwy gyd-gynhyrchu, i sicrhau bod gan fesurau gefnogaeth a pherthnasedd glinigol ac i sicrhau eu bod yn sbarduno gwell gofal a chanlyniadau i bobl Cymru. Canolbwyntiwyd ar ofal heb ei drefnu fel rhan o'r ymarfer hwn. Mae trafodaethau'n parhau gyda rhanddeiliaid i sicrhau bod mesurau'n seiliedig ar dystiolaeth glinigol ac yn dilyn egwyddorion Gofal Iechyd Darbodus, nawr ac yn y dyfodol.

Nid yw hwn yn ymarfer cyflym ond wrth i fesurau gael eu cytuno bydd Fframwaith Cyflawni'r GIG yn cael ei ddiweddarau. Caiff ei ddiweddarau nesaf ym mis Ebrill 2014. Ni fydd y gwaith hwn yn effeithio ar y ffordd y bydd perfformiad gofal heb ei drefnu'n cael ei fonitro y gaeaf hwn.

Fel rhan o'r gwaith o sicrhau agwedd fwy clinigol at fesurau yn y dyfodol, bydd archwilio llwybrau'n glinigol yn dod yn rhan bwysig o asesiadau. Trwy raglen archwilio genedlaethol, mae sefydliadau Cymru'n cymryd rhan mewn amrywiaeth eang o archwiliadau clinigol sy'n galluogi cymharu yng Nghymru a thu hwnt. Fel rhan o'r rhaglen genedlaethol hon, mae yna rai penodol sy'n ymwneud ag elfennau gofal heb ei drefnu o'r llwybr, megis llwybr cardiaidd aciwt a llwybrau torri gwddf y forddwyd. Mae'n bwysig ein bod yn glir ynglŷn â'r hyn y gellir ei gymharu, ac mae archwiliadau clinigol yn ffordd o sicrhau bod ymarfer clinigol yng Nghymru'n bodloni'r safonau perthnasol gyda chymorth tystiolaeth glinigol.

Adnoddau ychwanegol ar gyfer GIG Cymru

Rwy'n nodi eich sylwadau ynglŷn â dyraniad adnoddau ac rwy'n ddiolchgar i'r Pwyllgor am ei gefnogaeth gadarnhaol i'r newidiadau rydym wedi'u gwneud.

Capasiti

Capasiti Dewisol

Mae BILlau wedi paratoi'n well ar gyfer cyfnod y gaeaf eleni o gymharu â'r llynedd. Gan ddefnyddio'r gwersi a ddysgwyd y llynedd, mae BILlau wedi cynllunio eu capasiti dewisol a'u capasiti brys dros gyfnod y gaeaf i sicrhau eu bod yn cydymffurfio'n well â'r galw a ragwelir am ofal heb ei drefnu. Bydd hyn yn helpu BILlau i sicrhau bod y staff priodol ar gael i ymdrin ag unrhyw bwysau'n ymwneud â gofal heb ei drefnu, lleihau nifer y llawdriniaethau sy'n cael eu canslo ar fyr rybudd a gwella profiad cleifion. Mae arwyddion cynnar yn dangos bod nifer y llawdriniaethau a ganslwyd ym mis Rhagfyr 2013 18% yn is o gymharu â mis Rhagfyr 2012.

Capasiti Ymchwydd ar draws y system iechyd a gofal cymdeithasol

Mae'r pwyllgor wedi gofyn am fwy o fanylion am ba gapasiti ymchwydd sydd ar gael ar lefel byrddau iechyd unigol, gan gynnwys pa ystyriaeth sy'n cael ei rhoi i gapasiti ymchwydd yn y gymuned, yn ogystal ag mewn ysbytai.

Yn dilyn gwrandawriad y Pwyllgor, darparais fanylion mentrau cymunedol pob BILI i'ch helpu i gadw cleifion allan o'r ysbyty a hwyluso rhyddhad cynnar. Mae gwaith yn y maes hwn wedi parhau, ac mae gan y Rhaglen Gwella Gofal heb ei Drefnu ffrwd waith sydd â'r nod o ystyried gwasanaethau integredig ar draws iechyd a gofal cymdeithasol.

Adeg gwrandawriad y Pwyllgor Craffu ym mis Hydref, roedd BILlau wedi cynllunio ar gyfer cymysgedd o gapasiti ymchwydd, gwelyau neu welyau cyfatebol ar draws ystod o wasanaethau. Dros y gaeaf, mae BILlau wedi adolygu eu cynlluniau'n gyson ac wedi addasu eu cynlluniau capasiti fel eu bod yn ystyried ffactorau amrywiol megis y staff sydd ar gael, y galw a gwella llif cleifion. Mae BILI yn hyblyg ynglŷn â ble y dylid lleoli'r capasiti ychwanegol.

Yn seiliedig ar y wybodaeth ddiweddaraf, ledled Cymru mae yna botensial i sicrhau hyd at 492 o welyau a gwelyau cyfatebol, os bydd eu hangen, o gymharu â'r ffigur o 441 a nodwyd adeg y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Yn ogystal, mae yna wasanaethau cymunedol ychwanegol nad ydynt wedi'u mesur fel gwasanaethau gwelyau cyfatebol.

Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan

Capasiti o 102 o welyau ymchwydd, gyda'r potensial i sicrhau 25 o welyau pellach (aciwt a chymunedol). Mae'r capasiti y tu allan i'r Bwrdd Iechyd h.y. cartref nyrsio a gwelyau gofal llai dwys wedi cynyddu i 31 o welyau.

Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg

Capasiti o 71 o welyau claf mewnol ychwanegol a thua 45 o welyau cyfatebol cymunedol (bydd y capasiti cymunedol yn amrywio yn dibynnu ar faint y pecynnau gofal ar unrhyw adeg).

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Oherwydd anawsterau o ran recriwtio staff nyrsio, nid yw'r BILI wedi gallu agor capasiti ymchwydd mewn ysbytai ac mae wedi datblygu amryw o wasanaethau yn y gymuned i fynd i'r afael â phwysau brys, er enghraifft:

- Fel rhan o'r trefniadau cynllunio tymhorol, mae'r BILI yn prynu gwelyau Cartrefi Gofal ar gyfer cleifion sydd angen gofal wrth ddisgwyl pecynnau gofal neu leoliad mewn cartref gofal. Mae'r grŵp hwn o gleifion yn gymharol fach, ond mae'n darparu capasiti ychwanegol yn ôl yr angen.
- Mae'r Gwasanaeth Gofal Uwch a ddatblygwyd mewn partneriaeth ag ALLau yn darparu rhwng 15 ac 20 o welyau cyfatebol ym mhob un o'r pedair ardal dan sylw. Bydd y gwasanaeth yn cael ei gyflwyno yn yr holl ardaloedd eraill yn ystod 2014.
- Mae'r prosiect eiddilwch mewn partneriaeth ag ALLau yn gweithio'n dda mewn 3 ward ym mhob Ysbyty Cyffredinol Dosbarth. Yn ystod 2014, bydd y BILI yn cyflwyno'r prosiect ym mhob ward ac adran ar draws Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ac ym mhob ardal.

Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

91 o welyau fel a ganlyn:

- Capasiti ymchwydd o 40 o welyau claf mewnol ychwanegol (Meddygaeth)
- Capasiti ymchwydd dyddiol o 15 o welyau claf mewnol ychwanegol (Meddygaeth)
- Capasiti o 26 o welyau claf mewnol wedi'u comisiynu (Meddygaeth)
- Capasiti o 10 o welyau claf mewnol arhosiad byr dros benwythnos ar gyfer cleifion sy'n cael llawdriniaeth (Llawdriniaeth/Trawma)

Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf

36 o welyau arhosiad byr ar gyfer cleifion sy'n cael llawdriniaeth, gan eu cadw ar agor y tu hwnt i hanner dydd ar ddydd Sadwrn er mwyn cynnal llif cleifion dros y penwythnos. Mae'r BILL hefyd wedi agor 12 o welyau claf allanol ychwanegol ar gyfer cleifion sy'n cael llawdriniaeth, sydd ar gael o ddydd Llun i ddydd Gwener 12 awr y dydd. Mae Cwm Taf wedi dangos gwelliant sylweddol ym maes gofal heb ei drefnu trwy fesurau i reoli llif ar draws y system gyfan.

Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

60 o welyau ychwanegol ar gyfer cleifion sy'n cael llawdriniaeth aciwt, gyda thua 5 o welyau cymunedol ychwanegol i gefnogi rhyddhau gohriedig. Mae'r BILL yn gweithio gyda gwasanaethau cymdeithasol i ariannu gwelyau ychwanegol mewn gofal preswyl. Mae hefyd wedi newid i ofal dydd mewn rhai ardaloedd ar draws y gwasanaethau aciwt, gan ddarparu 10 o welyau ychwanegol. Yn yr un modd â Chwm Taf, mae Hywel Dda hefyd wedi gweld gwelliannau ym maes gofal heb ei drefnu o ganlyniad i fesurau i wella llif.

Bwrdd Addysgu Iechyd Lleol Powys

4 o welyau cymunedol ychwanegol ac amryw o fentrau sy'n ceisio lleihau nifer y derbyniadau gofal heb ei drefnu, gan gynnwys:

- Wardiau Rhithwir a Thimau Adnoddau Cymunedol dan arweiniad meddyg teulu i ofalu am gleifion risg uchel yn eu cartrefi
- Gwasanaethau diagnostic a thriniaeth lleol, gan gynnwys Unedau Mân Anafiadau, i atal derbyniadau y gellir eu hosgoi i adrannau damweiniau ac achosion brys
- Systemau apwyntiadau brys â meddyg teulu i atal derbyniadau y gellir eu hosgoi i adrannau damweiniau ac achosion brys yn ystod oriau arferol, ac i ategu trefniadau meddyg teulu y tu allan i oriau arferol.

Cronfa Gofal Canolraddol

Bydd y Gronfa Gofal Canolraddol £50 miliwn ar gyfer 2014-14, a gyhoeddwyd yn ddiweddar, yn canolbwyntio ar integreiddio ar draws gwasanaethau cymdeithasol, iechyd a thai. Mae'r Gronfa'n cynnwys refeniw o £35 miliwn a fydd o fewn Prif Grŵp Gwariant Llywodraeth Leol a £15 miliwn o gyllid cyfalaf ym Mhrif Grŵp Gwariant Tai ac Adfywio. Fe'i defnyddir i annog cydweithredu rhwng iechyd, tai a gwasanaethau cymdeithasol ac i helpu pobl i gynnal eu hannibyniaeth ac aros yn eu cartrefi eu hunain. Fe'i defnyddir i osgoi derbyniadau diangen i ysbytai, neu dderbyniadau amhriodol i ofal preswyl, yn ogystal ag atal oedi wrth ryddhau cleifion o'r ysbyty. Bydd y ffocws ar ddatblygu dewisiadau amgen cymunedol yn lle gofal ysbyty i bobl hŷn, yn enwedig pobl hŷn sy'n agored i niwed. Datblygwr cynigion mewn partneriaeth rhwng ALLau a BILLau a phartneriaid, gan gynnwys y trydydd sector a'r sector annibynnol.

Darpariaeth y tu allan i oriau arferol a gwasanaethau meddygon teulu

Darpariaeth y tu allan i oriau arferol

Mae gwaith yn cael ei gyflawni fel rhan o'r Rhaglen Waith ar gyfer Gwella Gofal heb ei Drefnu i ystyried sut y gellid gwella gwasanaethau y tu allan i oriau arferol, gan ddatblygu'r gwaith a wnaed gan y grŵp 111/y Tu Allan i Oriau Arferol blaenorol. Mae Safonau Ansawdd a Monitro ar gyfer Darparu Gwasanaethau y tu Allan i Oriau Arferol (OoHS) wedi'u datblygu a chânt eu cyhoeddi cyn bo hir.

Mae staffio cynaliadwy ar gyfer OoHS yn amcan cyffredinol sy'n gysylltiedig â darpariaeth y Safonau. Mae camau wedi'u cymryd hefyd i fynd i'r afael â phroblem benodol costau indemniad, a oedd yn cael eu gweld fel rhwystr sylweddol i recriwtio meddygon teulu sy'n darparu gwasanaethau sesiynol y tu allan i oriau arferol. Mae Bwrdd Cyngori Cronfa Risg

Cymru (WRP) wedi pennu y bydd yn cynnwys meddygon teulu sesiynol o fewn cwmpas trefniadau indemniad WRP ar unwaith am gyfnod cychwynol hyd at 30 Ebrill 2014.

Gwasanaethau meddygon teulu

Yn ddiweddar, daeth Llywodraeth Cymru a'r Pwyllgor Meddygon Teulu (GPC) (Cymru) i gytundeb ynglŷn â newidiadau i'r contract ar gyfer gwasanaethau meddygol cyffredinol ar gyfer 2014/15. Bydd y newidiadau i'r contract, a ddatblygwyd mewn cydweithrediad agos â GPC (Cymru), yn galluogi meddygon teulu i dreulio mwy o amser yn gofalu am eu cleifion mwyaf agored i niwed, yn gwella darpariaeth gofal iechyd lleol ac yn mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd rhwng yr ardaloedd mwyaf a lleiaf cyfoethog yng Nghymru.

Mae newid allweddol i'r contract yn cynnwys parth Datblygu Gwasanaethau Lleol newydd o fewn y Fframwaith Canlyniadau Ansawdd (QOF). Fel rhan o raglen ddatblygu tair blynedd, bydd y fframwaith yn galluogi meddygfeydd teulu i gryfhau eu gallu i weithredu fel clwstwr gyda'r nod o wella'r gwaith o gydgyssylltu gofal, gwella'r gwaith o integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol a gwella gwaith cydweithredol gyda chymunedau lleol trwy gytuno ar Gynllun Rhwydwaith Clwstwr Meddygfa Deulu.

Bydd y Cynllun Rhwydwaith Clwstwr Meddygfa Deulu yn galluogi clystyrau i adeiladu ar y gwaith Ansawdd a Chynhyrchiant QOF blaenorol mewn perthynas ag atgyfeirio cleifion allanol, derbyniadau brys a phroffilio risg cleifion y mae perygl sylweddol y cânt eu derbyn i ofal eilaidd heb ei drefnu. Yn ogystal, fel rhan o'r parth Datblygu Gwasanaethau Lleol newydd, bydd hi'n ofynnol i feddygfeydd teulu gymryd rhan mewn tri llwybr gofal cenedlaethol sy'n rhoi sylw i ganfod canser yn gynnar, gofal diwedd oes a henoed eiddil. Bydd y llwybrau gofal cenedlaethol hyn yn cael effaith fawr ar leihau nifer y derbyniadau brys a'r derbyniadau gofal heb ei drefnu, lle bo hynny'n briodol ac er lles y claf.

Oedi wrth Drosglwyddo Gofal

Mae nifer yr achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal a hyd yr oedi wedi gostwng yn sylweddol dros y 9 mlynedd ddiwethaf, gyda gostyngiad o dros 60% yn nifer yr achosion o oedi ac 80% yn nifer y diwrnodau o oedi o'u penllanw yn 2003. Fodd bynnag, nid yw'r lefel hon o welliant wedi parhau dros y ddwy flynedd ddiwethaf, gyda chyfansymiau Cymru gyfan yn amrywio rhwng 400 a 500.

Dangosodd y data diweddaraf (cyfnod cyfrifiad mis Rhagfyr 2013) fod cyfanswm o 423 o gleifion wedi wynebu oedi wrth drosglwyddo gofal. Roedd hyn yn gynydd o 20 o achosion neu 5% o gymharu â chyfnod mis Tachwedd. Fodd bynnag, effaith gronnu gostyngiadau olynol dros y misoedd blaenorol oedd gostyngiad o 66 o achosion o oedi neu 13.5% ers mis Awst 2013.

Dangosodd ffigurau mis Rhagfyr ostyngiad yn hyd canolrifol yr oedi, sef 23 diwrnod, a oedd yn is na misoedd diweddar, sef 28-33 o ddiwrnodau rhwng mis Medi a mis Rhagfyr 2013. Roedd y ffigur hwn yn is hefyd nag ydoedd ym mis Rhagfyr 2012 (30 diwrnod).

Un o amcanion penodol y Gronfa Gofal Canolraddol yw ceisio atal oedi wrth drosglwyddo gofal.

Y Gweithlu

Mae'r Pwyllgor wedi gofyn am fwy o wybodaeth am y camau sydd angen eu cymryd i fynd i'r afael â lefelau salwch. Mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod pwysigrwydd rheoli absenoldeb salwch yn effeithiol a gwella iechyd a lles staff y GIG. Ar 1 Hydref 2013,

gofynnodd y Cyfarwyddwr Cyffredinol am i gamau brys gael eu cymryd i leihau lefelau absenoldeb salwch o fewn GIG Cymru 1% erbyn diwedd 2014/15. Mewn ymateb, mae sefydliadau'r GIG wedi datblygu camau gweithredu i wella trefniadau rheoli absenoldeb salwch yn eu sefydliadau.

Yn ogystal, defnyddiodd Llywodraeth Cymru ddull cydgysylltiedig i annog BILlau ac Ymddiriedolaethau i ddatblygu cynigion ar gyfer y Gronfa Buddsoddi i Arbed er mwyn cefnogi ymdrechion i leihau lefelau absenoldeb salwch yn GIG Cymru.

Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaeth Ambiwlans Cymru (WAST)

Rwy'n cytuno bod Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaeth Ambiwlans Cymru yn gwbl allweddol i ddarparu gwasanaethau gofal heb ei drefnu diogel ac effeithiol dros y gaeaf. Rwy'n falch o nodi bod yr Ymddiriedolaeth wedi llenwi pob swydd parafeddygol namyn pump, gyda staff ychwanegol yn cael eu recriwtio naill ai cyn neu yn ystod cyfnod y gaeaf i ategu gwaith caled staff presennol. Mae'r cynlluniau pellach i recriwtio staff ychwanegol ar ôl diwygio'r gwasanaeth ambiwlans yn galonogol iawn hefyd.

Yn ogystal, mae WAST wrthi'n trafod casgliad o bolisiau gweithlu newydd er mwyn rhyddhau capasiti ychwanegol i ymateb i gleifion yn y gymuned. Mae'r rhain yn cynnwys polisi seibiant gorffwys diwygiedig sy'n sicrhau bod staff rheng flaen ar gael i ymateb i gleifion yn ystod cyfnodau seibiant gorffwys ac adolygiad o amserlenni gyda'r nod o sicrhau bod rotâu staff yn cyd-fynd â'r galw disgwylidig a darpariaeth staff wrth gefn er mwyn cyflenwi dros absenoldeb, hyfforddiant a salwch.

Y ffliw

Rydych wedi crybwyll pryderon ynglŷn â'r defnydd o frechiadau ffliw tymhorol a'r angen i wella hyn.

Ymgyrchoedd ffliw a rhaglenni imiwneiddio niwmococol

Mae blwyddyn gyntaf y rhaglen ffliw tymhorol i blant wedi bod yn llwyddiannus. Erbyn 7 Ionawr, roedd 69.7% o ddisgyblion blwyddyn 7 a 35.8% o blant 2 a 3 oed wedi'u brechu. Roedd hyn yn gofyn am ymdrech fawr gan bawb oedd yn ymwneud â'r rhaglen. Bydd Llywodraeth Cymru'n archwilio'r gwersi a ddysgwyd eleni wrth ystyried sut i ddatblygu'r rhaglen yn 2014-15.

Erbyn 7 Ionawr, roedd 66.6% o bobl 65 oed a hŷn a 48.6% o'r rhai iau na 65 oed oedd mewn perygl wedi'u brechu; mae hyn fwy neu lai yr un fath â'r tymor diwethaf (67.7% a 49.7%). Roedd 40.0% o fenywod beichiog wedi'u brechu hefyd (43.6% y llynedd).

Brechu staff

Erbyn 7 Ionawr, roedd 37.6% o'r staff wedi'u brechu. Er bod y ffigur hwn yn uwch na ffigur y llynedd (35.5%), mae'n dal i fod yn bell o gyrraedd ein targed presennol o 50%. Nid wyf yn ffafrio gosod targed uwch y flwyddyn nesaf, er y byddaf yn adolygu hyn ac yn ystyried gosod targedau mwy heriol yn y dyfodol er mwyn sbarduno gwelliant.

Yn olaf, rydym yn croesawu ffocws cynyddol y Pwyllgor ar barodrwydd ar gyfer y gaeaf a'r safbwyntiau ychwanegol a fynegwyd yn yr atodiad i'ch llythyr a fydd yn llywio trefniadau ALLau, GIG Cymru a Llywodraeth Cymru ar gyfer cyfnod y gaeaf presennol a thu hwnt. Mae'r newid diwylliannol sylweddol a nodwyd gan y gwaith partneriaeth ar draws sectorau gofal wedi bod yn galonogol iawn, a byddwn yn adolygu a gwerthuso darpariaeth dros y

cyfnod heriol hwn mewn ffordd gynhwysfawr er mwyn llywio gwelliannau pellach ar gyfer y gaeaf 2014/15.

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink, reading "Mark Drakeford", enclosed in a thin black rectangular border.

Mark Drakeford AC/AM

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services